

A large, stylized tree graphic in shades of blue, serving as a background for the top half of the page. The tree has a thick trunk and several large, rounded branches.

**Trefniadau Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd
arolygiadau**

Polisi a gweithdrefnau

Diweddarwyd ar gyfer Medi 2026

Taflen wybodaeth

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynghylch y polisi hwn at:
ymholiadau@estyn.llyw.cymru

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cynhaliwyd asesiad rhesymwaith busnes ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion strategol ac egwyddorion cyflawni Estyn.

Yn unol ag Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb Estyn, cynhaliwyd asesiad effaith sgrinio cychwynnol ac ni ystyrir bod y polisi hwn yn cael effaith andwyol ar sail y naw nodwedd warchodedig a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir aildddefnyddio'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn (heblaw logos yr adrannau) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.

Trefniadau Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau. Mae sicrhau ansawdd yn ein helpu i gynnal safonau gyson uchel yn ein gwaith ac yn rhoi adborth gwerthfawr i ni er mwyn helpu i wella ein dulliau a'n harferion yn barhaus.

Mae Estyn yn sicrhau ansawdd ein holl adroddiadau cyn eu cyhoeddi. Ar ben hynny, mae cyfarwyddwyr cynorthwyol, cyfarwyddwyr strategol ac AEF eraill yn ymweld â chyfran o ddarparwyr sy'n cael eu harolygu bob blwyddyn, i sicrhau ansawdd gwaith y tîm.

Er mis Medi 2016, mae pob arolygiad yn y sector meithrin nas cynhelir dan arweiniad Estyn neu AGC. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer arolygiadau dan arweiniad Estyn yn y sector.¹

Mae rôl ein gweithlu arolygwyr allanol yn amhrisiadwy. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn ein helpu i'w cynorthwyo â'u dysgu a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer arolygu.

Owen Evans, Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru



¹ At ddibenion y ddogfen hon:

- Ystyr 'dan arweiniad AEF' yw arolygiad sy'n cael ei arwain gan AEF neu secondai.
- Ystyr 'dan arweiniad AYG' yw unrhyw arolygiad dan arweiniad Arolygydd Ychwanegol (AY) e.e. Arolygydd Cofrestredig (ACof) dan gontract uniongyrchol gydag Estyn.
- Mae 'dan arweiniad Estyn' yn cynnwys arolygiadau dan arweiniad AEF (neu secondai) neu Arolygydd Ychwanegol. Mae 'Arolygydd Cofnodol' (AC) yn cyfeirio ar yr AEF, secondai, ACof neu ACofM sy'n arwain y tîm arolygu ac sy'n gyfrifol am gyflwyno'r adroddiad a'r dystiolaeth arolygu i Estyn.
- Mae 'Arolygydd Ychwanegol dan Gontract' (AYG) yn derm generig sy'n cynnwys Arolygwyr Cofrestredig, Arolygwyr Ychwanegol (yn gweithredu fel aelodau'r tîm) ac Arolygwyr Lleyg.
- Mae 'arolygiadau' yn cyfeirio at arolygiadau craidd a gweithgarwch monitro dilynol a gynhelir dan Ddeddf Addysg 2005. Mae 'ymweliadau' yn cyfeirio at ymweliadau interim anstatudol, a gyflwynwyd ym mis Medi 2024.

Cynnwys

1	Cyd-destun	1
2	Rôl Arolygwyr Cofnodol wrth sicrhau ansawdd	2
3	Rôl Estyn wrth sicrhau ansawdd	2
4	Ymateb i berfformiad nad yw’n bodloni’r gofynion	7
5	Tynnu oddi ar y rhestr arolygwyr cofrestredig/ymrestredig	11
Atodiad 1	Monitro ansawdd gwaith arolygwyr	14
Atodiad 2	Tabl o effaith hyfforddiant	15
Atodiad 3	Arolygwyr Cymheiriaid a Phartneriaid Gwella Ysgolion	16
Atodiad 4	Sicrhau ansawdd arolygiadau ar y cyd rhwng Estyn ac AGC	17

1 Cyd-destun

- 1.1 Mae gan Estyn ddyletswydd statudol i sicrhau bod arolygwyr yn cynnal arolygiadau o ansawdd da. Mae darpariaethau Deddf Addysg 2005 a rheoliadau dilynol yn ein galluogi i fonitro a gwerthuso gwaith arolygwyr ychwanegol dan gontract (AYG).
- 1.2 Mae gennym ystod o weithgareddau a gofynion sy'n helpu i sicrhau arolygiadau o ansawdd da ac sy'n gwella ein harfer yn barhaus. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - 'Beth rydym yn ei arolygu', 'Sut rydym yn arolygu', pecynnau cymorth arolygu ar gyfer sectorau penodol a dogfennau arweiniad ategol
 - dethol AYGau, eu hyfforddiant cychwynnol a'u hasesu
 - hyfforddiant parhaus a diweddariadau i arolygwyr ynghylch materion arolygu cyfredol
 - diweddaru arweiniad arolygu yn rheolaidd
 - gofynion i arolygwyr weithio'n unol â chod ymddygiad a meddylfryd arolygu, ynghyd â'r arweiniad arolygu, yn unol ag amodau cyffredinol a bennwyd gan Brif Arolygydd Ei Fawrhydi (PAEF)
 - y gofyniad na ddylai arolygwyr cymheiriaid nac arolygwyr dan gontract ddefnyddio offer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (DA Cynhyrchiol) mewn unrhyw agwedd ar eu gwaith arolygu i Estyn
 - gweithdrefnau ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau ac adroddiadau trwy fonitro ansawdd sampl o arolygiadau a phob adroddiad arolygu
 - proses lle bydd yr AC yn llenwi Ffurflen Gwerthuso Arolygydd (FfGA) gan werthuso gwaith yr Arolygwyr Tîm, Arolygwyr Lleyg a'r Arolygwyr Cymheiriaid
 - proses o gael adborth gan ddarparwyr ar ffurf holiaduron ôl-arolygiad (HOA) neu holiaduron ar ôl ymweliadau interim (HOYI)
 - proses o wirio cywirdeb ffeithiol ar gyfer adroddiadau arolygu drafft
 - gweithdrefn adborth a chwynion
 - ein prosesau hunanwerthuso blynyddol, sy'n helpu i sicrhau bod y dystiolaeth o'r holl weithgareddau hyn yn cefnogi ein hyfforddiant parhaus, diweddariadau i arweiniad ac unrhyw newidiadau i dulliau arolygu
- 1.3 Gallai unrhyw fethiant gan dimau i gynnal arolygiadau o ansawdd da gael effaith andwyol, fawr ar ein henw da ymhlith ysgolion ac ym myd addysg yng Nghymru, yn gyffredinol. Mae hyn yn cynrychioli risg sylweddol i ddilysrwydd a hygredd arolygiadau. Os yw PAEF yn poeni ynghylch agweddau ar berfformiad unrhyw AYG, naill ai'n ymwneud â'r dull o gynnal yr arolygiad neu'r adroddiad ysgrifenedig, gall PAEF fynnu bod unrhyw arolygydd tebyg yn cadw at amodau ychwanegol a all gael eu cymhwyso, neu dynnu'r arolygydd (dadgofrestru) oddi ar y Gofrestr/Rhestr Ymrestredig, yn amodol ar broses apelio. Bydd y camau a gymerwn yn gymesur â'r pryderon neu'r methiannau a ddaw i'n sylw.

1.4 Mae'r polisi a'r gweithdrefnau canlynol yn amlinellu rôl yr AC sy'n gweithio dan gontract gydag Estyn, a'n rôl ni wrth ymdrin â sefyllfaoedd pan na fydd gwaith AYGau (Arolygwyr Cofnodol, Arolygwyr Tîm ac Arolygwyr Lleyg) yn bodloni'r safonau gofynnol. Pan fydd sefyllfaoedd tebyg yn gyfystyr â thor contract, gallwn fynd ar drywydd rhwymedïau cytundebol dan y contract. Fodd bynnag, dan Ddeddf 2005 (cyfeiriadau yn adran 26 ac atodlen 4), gall PAEF hefyd dynnu enw unrhyw arolygydd oddi ar y Gofrestr/Rhestr Ymrestredig pan fydd PAEF yn fodlon:

- nad yw'r arolygydd yn unigolyn addas a phriodol i weithredu'n aelod o dîm arolygu mwyach
- nad yw'r arolygydd yn gallu cynorthwyo ag arolygiad yn gymwys nac yn effeithiol mwyach
- bod yr arolygydd wedi methu'n sylweddol i gydymffurfio ag unrhyw amod y mae PAEF wedi'i osod arnynt, neu
- bod yr arolygydd, heb esboniad rhesymol, wedi llunio adroddiad ar arolygiad sydd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn hynod gamarweiniol (yn berthnasol i ACau yn unig).

Mae Estyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob arolygydd allanol:

- ymgymryd â'r hyfforddiant neu'r datblygiad proffesiynol gofynnol
- cynnal cyfrinachedd llwyr ynghylch gwaith arolygu a'r darparwr bob amser.

2 Rôl Arolygwyr Cofnodol wrth sicrhau ansawdd

Arolygwyr Cofnodol

2.1 Yr arolygydd cofnodol (AC) sy'n gyfrifol am reoli a monitro holl waith aelodau'r tîm a rhoi adborth i arweinwyr yn Estyn os bydd unrhyw anawsterau'n codi. Rhaid i'r AC sicrhau ansawdd gwaith pob aelod o'r tîm, gan gynnwys eu hymddygiad mewn cyfarfodydd a sicrhau eu bod yn cwblhau tystiolaeth arolygu. Hefyd, disgwylir i'r AC ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi yn ystod yr arolygiad ei hun, er enghraifft pryderon sy'n cael eu mynegi gan enwebai'r ysgol. Dylai AC roi adborth ar ansawdd gwaith holl aelodau perthnasol y tîm, gan ddefnyddio meini prawf cytûn, a thrwy lenwi'r ffurflenni gwerthuso arolygydd priodol ar y we.

3 Rôl Estyn wrth sicrhau ansawdd

3.1 Mae'r rhaglen ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau ac adroddiadau yn cyfrannu at gyflwyno addysg o ansawdd uchel yng Nghymru. Rydym yn casglu gwybodaeth am ansawdd gwaith arolygwyr unigol mewn sawl ffordd wahanol, gan gynnwys:

- sicrhau ansawdd arolygiadau craidd ac ymweliadau interim (SAAr) yn uniongyrchol gan AEF a chyfarwyddwyr cynorthwyol

- sicrhau ansawdd adroddiadau a llythyrau cyhoeddedig ar ôl ymweliadau (SAAd) gan AEF a chyfarwyddwyr cynorthwyol
- Ffurflenni Gwerthuso Arolygydd (FfGA) wedi'u llenwi gan yr AC
- data caffael ar AYGau sy'n terfynu eu contractau
- adborth, gan gynnwys pryderon gan ddarparwyr ac ar ffurf holiaduron ôl-arolygiad (HOA) neu holiaduron ar ôl ymweliadau interim (HOYI)
- canlyniadau cwynion sy'n cael eu cadarnhau a thystiolaeth sicrhau ansawdd berthnasol arall.

- 3.2 Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio ein gwaith cyffredinol ar hyfforddiant ac arweiniad, i ystyried unrhyw welliannau i'n dulliau arolygu a'n helpu i gefnogi arolygwyr unigol i wella eu perfformiad. Gallai hyn gynnwys ymdrin â pherfformiad anfoddhaol.
- 3.3 Ein contractwr (Trosol ar hyn o bryd) sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd gwasanaethau cyfieithu Estyn. Rydym yn cynnal archwiliadau cyfnodol o gyfieithiadau Cymraeg i Saesneg, gyda'r bwriad o sicrhau ansawdd gwaith cyfieithu. Os byddwn yn nodi problemau, byddwn yn rhoi adborth i'r contractwr gwasanaethau cyfieithu ynghylch sut gallai wella ei waith.

Ymweliadau Interim

- 3.4 Mae ymweliadau interim yn ychwanegiad anstatudol at ein dull arolygu, a chânt eu harwain a'u staffio gan AEF, i ddechrau. Bydd Cyfarwyddwyr Cynorthwyol yn sicrhau ansawdd sampl o ymweliadau interim (SAArYI) a bydd AEF yn sicrhau ansawdd yr holl lythyrau cyhoeddedig sy'n deillio o ymweliadau interim (SAAdYI). Byddwn yn casglu adborth gan ddarparwyr trwy holiadur ar ôl ymweliad interim (HOYI).

Cofnodi graddau

- 3.5 Pan fydd AEF yn monitro ansawdd arolygiadau ac adroddiadau sy'n cael eu cwblhau gan AYGau, byddant yn dyfarnu graddau ar gyfer ansawdd y gwaith a welant ar ffurflenni Sicrhau Ansawdd Arolygiadau (SAAr) a Sicrhau Ansawdd Adroddiadau (SAAd). Pan fydd ACau yn monitro ac yn asesu gwaith Arolygwyr Tîm, Arolygwyr Lleyg ac Arolygwyr Cymheiriaid, byddant yn cofnodi graddau ar gyfer ansawdd y gwaith ar Ffurflenni Gwerthuso Arolygydd (FfGA). Mae enghreifftiau o'r ffurflenni hyn i'w gweld yn nogfen **'Pecyn cymorth Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau'**.
- 3.6 Ar ffurflenni FfGA, bydd ACau yn defnyddio'r graddau canlynol i farnu ansawdd y gwaith arolygu y byddant yn dod ar ei draws:

- | |
|--|
| <p>A – Yn bodloni'r gofynion ym mhob agwedd neu bron ym mhob agwedd</p> <p>B – Yn bodloni'r gofynion, gydag ychydig o fân agweddau i'w gwella</p> <p>C – Yn bodloni'r gofynion, ond mae angen cymorth nodedig i wneud hynny – ychydig o</p> |
|--|

feysydd sylweddol i'w gwella

D – Nid yw'n bodloni'r gofynion o ganlyniad i ddiffygion pwysig

Bydd AEF yn defnyddio'r graddau hyn hefyd i roi barn gyffredinol i ACoF ac ACoFM sy'n arwain arolygiad, a hynny drwy'r ffurflenni SAAr a SAAAd (cyfeiriwch at adrannau 3.8 i 3.10 ac adrannau 3.11 i 3.14).

Mae unrhyw ddefnydd o DA Cynhyrchiol gan arolygydd cymheiriaid neu arolygydd dan gontract wrth gyflawni gwaith arolygu i Estyn yn fethiant difrifol a bydd yn arwain at radd D gyffredinol ar yr Ffurflen Gwerthuso Arolygydd (FfGA).

3.7 Ar ben hynny, byddwn yn ystyried dyfarnu gradd C neu D:

- 1 i'r AYGau hynny sy'n terfynu eu contractau
- 2 pan fydd cwyn yn erbyn yr AYG wedi'i chadarnhau.

Sicrhau ansawdd arolygiadau yn uniongyrchol

3.8 Mae sicrhau ansawdd arolygiadau yn ein galluogi i:

- fod â thystiolaeth uniongyrchol o sut mae'r system arolygu yn gweithio mewn ysgolion/darparwyr i'n helpu i wella'n barhaus
- arsylwi a gwerthuso gwaith ACau a rhoi adborth iddynt ar eu perfformiad
- dysgu gwersi a fydd yn bwydo i'n rhaglen hyfforddiant i gefnogi'r rhai sy'n arolygu ar ein rhan
- dangos i randdeiliaid ein hymrwymiad i sicrhau cysondeb a thegwch yn y broses.

Sicrhau ansawdd arolygiadau (SAAr)

3.9 Fel arfer, byddwn yn sicrhau ansawdd tua 10% o'r arolygwyr sydd dan gontract i arwain arolygiad bob blwyddyn. Mae'r 10% hwn yn berthnasol i arolygiadau ysgolion ac arolygiadau o leoliadau nas cynhelir dan arweiniad Estyn. Mae cyfarwyddwyr cynorthwyol hefyd yn sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau dan arweiniad AEF bob blwyddyn.

3.10 Fel arfer, bydd gweithgarwch SAAr yn cynnwys un AEF, cyfarwyddwr cynorthwyol neu gyfarwyddwr strategol yn ymweld â'r ysgol/darparwr i:

- siarad â staff am broffesiynoldeb a meddylfryd canfyddedig y tîm arolygu
- gwerthuso gwaith aelodau'r tîm, yn enwedig yr AC, gan gynnwys pa mor dda
- mae'r AC yn cynnal cyfarfodydd ac yn rheoli gwaith y tîm
- asesu ansawdd y sail dystiolaeth, gan gynnwys:

- llenwi ffurflenni mewnbwn electronig a defnyddio'r ystafell arolygu rithwir (YAR)
- cofnodion cyfarfodydd, arsylwadau o arfer yn yr ystafell ddosbarth a gweithgarwch arolygu arall, e.e. craffu ar waith disgyblion a chynlluniau gwella ysgol (yr holl nodiadau sydd wedi'u cynnwys mewn ffurflenni mewnbwn tîm unigol neu FfMTau)
- herio canfyddiadau arolygu, lle bo hynny'n briodol, i wirio bod gwerthusiadau'n gryf ac yn gadarn.

3.11 Ar gyfer arolygiadau dan arweiniad AYG pan fydd SAAr yn digwydd, bydd yr AEF sy'n ymgymryd â'r gweithgarwch SAAr yn llenwi ffurflen SAAr yn yr YAR ac yn dyfarnu gradd SAAr i waith yr AC. Bydd y sylwadau ar y ffurflen SAAr yn canolbwyntio ar nodi unrhyw achlysuron pan nad yw ACau yn bodloni'r gofynion. Disgwylir i bob arolygydd fodloni gofynion Estyn, felly nid oes angen unrhyw sylw penodol am hyn ar y ffurflen, ond gall gael ei gyfleu'n ddigonol trwy ddyfarnu gradd A neu B gyffredinol. Cyfeiriwch at **'Pecyn cymorth Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau'** i weld enghraifft o'r ffurflen SAAr.

Sicrhau ansawdd adroddiadau (SAAd)

- 3.12 Byddwn yn sicrhau ansawdd pob (100%) ffurflen mewnbwn adrodd (FfMA) sy'n cael ei chyflwyno gan ACau, boed yn AYG neu'n AEF, cyn cyhoeddi. Yn y sector nas cynhelir, lle caiff pob arolygiad ei gwblhau ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), mae hyn yn berthnasol i bob arolygiad dan arweiniad Estyn.
- 3.13 Bydd y ffurflen mewnbwn adrodd yn mynd trwy ein proses olygu ac ansawdd cyn anfon yr adroddiad at y darparwr i wirio cywirdeb ffeithiol. Bydd yr AC yn cael eu cynnwys trwy gydol y broses hon. Disgwylir i AC ymateb yn gydwytbodol ac yn ddiymdroi i'r sylwadau a'r awgrymiadau a wneir gan AEF neu gyfarwyddwyr cynorthwyol/cyfarwyddwyr strategol trwy'r broses olygu a SAAd. Mae'r broses hon yn elfen allweddol o safoni a dilysu canfyddiadau arolygu. Pan fydd y broses olygu a sicrhau ansawdd yn arwain at newid posibl i unrhyw ganfyddiadau neu ddeilliannau arolygu, dylai'r AC ymateb yn briodol, er enghraifft trwy gytuno i newid ffocws y negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn y testun yng ngoleuni'r dystiolaeth arolygu neu drwy olygu'r adroddiad i adlewyrchu'r deiliant cytûn yn well.
- 3.14 Pan fydd yr AC dan gontract gydag Estyn, bydd AEF yn dyfarnu gradd SAAd gyffredinol i'r AC, sy'n cynnwys ystyried ansawdd ysgrifennu, y sylw a roddwyd i agweddau ar y fframwaith arolygu a chadernid y dystiolaeth.
- 3.15 Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai'r AC sy'n gyfrifol am ansawdd cyffredinol yr adroddiad cyhoeddedig. Cyfeiriwch at **'Pecyn cymorth Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau'** i weld enghraifft o'r ffurflen SAAd.

Safoni graddau SA (SAAr a SAAd)

3.16 Mae gan aelod o'r rhwydwaith sector perthnasol (arolygydd arweiniol y sector neu gyfwerth, fel arfer) rôl mewn safoni gwaith sicrhau ansawdd AEF yn y sector. Hefyd, mae gan y Swyddog Arweiniol ar gyfer Polisi Arolygu'r a'r Swyddogion Arweiniol ar gyfer Sicrhau Ansawdd rôl mewn safoni ffurflenni SA sy'n awgrymu bod gwaith AYG gerllaw neu islaw'r safon sy'n ofynnol gan Estyn (graddau C a D). Mae'r Swyddogion Arweiniol ar gyfer SA hefyd yn ystyried sampl o ffurflenni sydd â graddau uwch (graddau A a B) i wirio am gysondeb ar draws y gwaith SA sy'n cael ei wneud gan arolygwyr. Mae arolygydd arweiniol y sector, yn y lle cyntaf, ac yna Swyddog Arweiniol ar gyfer Polisi Arolygu neu Swyddog Arweiniol ar gyfer Sicrhau Ansawdd, ar gael i drafod yr adborth a roddwyd gyda'r AYG ac ymateb i unrhyw gwestiynau am y broses sicrhau ansawdd neu sut y daethpwyd i'r radd honno. Pan gaiff pryderon eu codi nad yw'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd wedi cael eu dilyn yn gywir, caiff y rhain eu hystyried yn unol ag adran 4 y polisi hwn.

Ffurflenni Gwerthuso Arolygydd (FfGA)

- 3.17 Ym mhob arolygiad, bydd yn ofynnol i'r AC ddefnyddio Ffurflen Gwerthuso Arolygydd (FfGA) i gofnodi gwerthusiad o berfformiad pob Arolygydd Tîm (os ydynt yn allanol), Arolygydd Lleyg, Arolygydd Cymheiriaid a Phartner Gwella Ysgolion, fel y bo'n briodol.
- 3.18 Mae'r FfGA yn cynnwys cyfuniad o hunanwerthuso gan yr arolygydd, adborth gan yr arolygydd a gwerthusiad o berfformiad yr arolygydd gan yr AC. Caiff yr arolygydd gyfle i lenwi elfennau hunanwerthuso ac adborth y ffurflen cyn pen pum niwrnod o ddiwedd yr arolygiad. Ar ôl y cyfnod hwn, nid yw'n bosibl llenwi'r adran hunanwerthuso nac adborth, gan fod y ffurflen yn symud draw i'r AC i'w llenwi. Y nod yw llenwi pob FfGA yn gyfan gwbl cyn pen 10 niwrnod o ddiwedd yr arolygiad.
- 3.19 Mae'r FfGA yn cynnwys gradd gyffredinol ar berfformiad gan yr arolygydd cofnodol. Mae'r ffurflen hefyd yn cynnwys cyfle i arolygwyr unigol a'r AC nodi cryfderau ac agweddau i'w cryfhau ar gyfer arolygiadau yn y dyfodol. Rydym yn disgwyl i bob arolygydd chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella eu harfer a'u dulliau ymhellach. Mae'r Swyddogion Arweiniol ar gyfer SA yn ystyried sampl o ffurflenni i wirio am gysondeb ar draws y gwaith SA y mae arolygwyr yn ymgymryd ag ef. Yn y lle cyntaf, mae arolygydd arweiniol y sector, ac yna Swyddogion Arweiniol ar gyfer SA, ar gael i drafod yr adborth a roddwyd gyda'r arolygydd ac ymateb i gwestiynau am sut y dyfarnwyd y radd FfGA. Pan gaiff pryderon eu codi nad yw'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd wedi cael eu dilyn yn gywir, caiff y rhain eu hystyried yn unol ag adran 4 y polisi hwn.

Cwynion

- 3.20 Gall cwynion neu bryderon ddod gan ddarparwr, staff, llywodraethwyr, cynrychiolwyr awdurdodau lleol neu bobl eraill.
- 3.21 Rhaid i'r AC roi pob cyfle i'r darparwr godi unrhyw bryderon yn ystod yr arolygiad. Rhaid

mynd i'r afael â'r rhain mewn modd sensitif a chadarnhaol ac, os yw'n bosibl, eu datrys yn y fan a'r lle. Os na ellir datrys pryderon, rhaid rhoi cyngor i'r achwynnydd ar sut i wneud cwyn a'u cyfeirio at ein gweithdrefnau cwyno yn www.estyn.llyw.cymru. Rhaid gwneud cwyn cyn pen 5 diwrnod gwaith ar ôl y digwyddiad y gwneir cwyn amdano.

- 3.22 Rydym yn cadw cofnod o bob cwyn ac yn adolygu'r rhai sy'n ymwneud ag arolygwyr allanol yn rheolaidd. Pan fydd cwyn yn cael ei chadarnhau, caiff hyn ei ystyried yn rhan o'r dystiolaeth sicrhau ansawdd sy'n cael ei hystyried yn gysylltiedig â pherfformiad arolygydd. Yn amodol ar natur a difrifoldeb y gŵyn a gadarnheir, gellir ei hystyried yn gyfystyr â diffyg sylweddol neu bwysig wrth benderfynu ar yr ymateb priodol o ran sicrhau ansawdd.

Adborth o holiaduron ôl-arolygiad (HOAau)

- 3.23 Gallem gael adborth hefyd gan ddarparwyr ar ffurf holiaduron ôl-arolygiad (HOAau). Mae'r holiaduron hyn yn rhoi cyfle i ddarparwyr werthuso agweddau ar y broses arolygu, gan gynnwys:

- paratoi ar gyfer arolygiad
- cyfathrebu cyn-arolygiad gyda'r darparwr a rhanddeiliaid
- y ffordd y cynhaliwyd yr arolygiad
- ansawdd y dystiolaeth a'r gwerthusiad.

- 3.24 Mae dadansoddiad o bob HOA yn nodi a yw'r darparwr o'r farn bod yr arolygiad yn brofiad cadarnhaol neu negyddol, ar y cyfan. Os yw'r darparwr o'r farn bod rhai meysydd allweddol o'r arolygiad wedi'u cynnal yn amhriodol neu wedi mynegi ymateb negyddol iawn i'r arolygiad, byddwn yn trafod unrhyw bryderon gyda'r canlynol:

- yr AC
- arolygydd arweiniol y sector a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol perthnasol
- Swyddog Arweiniol ar gyfer Polisi Arolygu neu Swyddog Arweiniol ar gyfer Sicrhau Ansawdd.

- 3.25 Bydd pob math o adborth, gan gynnwys pryderon gan ddarparwyr ar ffurf HOAau, yn cael eu hystyried wrth werthuso ansawdd gwaith arolygydd unigol. Rydym hefyd yn defnyddio'r adborth a roddir yn rhan o'n prosesau hunanwerthuso blynyddol i nodi gwelliannau pellach y gallwn eu gwneud ar draws ein holl waith.

Methiannau difrifol

- 3.26 Caiff methiant difrifol ei ddiffinio fel a ganlyn:

- Unrhyw adroddiad hynod gamarweiniol a nodir ar ôl adolygiad gan AEF o adroddiad arolygu neu sail dystiolaeth arolygiad
- Unrhyw arolygiad hynod ddiffygiol o nodir o ganlyniad i ymweliad ag arolygiad i

asesu ei ansawdd neu drwy graffu ar aseiniadau tîm arolygu neu ar ôl adolygiad gan AEF o sail dystiolaeth arolygiad, er enghraifft o ganlyniad i gŵyn

- Unrhyw ymddygiad annerbyniol a nodir drwy sicrhau ansawdd arolygiad neu o ganlyniad i gŵyn.
- Unrhyw ddefnydd o DA Cynhyrchiol gan arolygydd cymheiriaid neu arolygydd dan gontract wrth gyflawni gwaith arolygu i Estyn.

3.27 Lle byddwn yn darganfod bod adroddiad arolygu yn hynod gamarweiniol neu fod arolygiad yn hynod ddiffygiol, neu y bu ymddygiad annerbyniol gan arolygydd, byddwn yn cymryd camau ar unwaith yn gysylltiedig â'r arolygydd dan gam 2 y broses ymateb i berfformiad nad yw'n bodloni'r gofynion (gweler adran 4).

3.28 Pan fyddwn yn llunio barn bod arolygiad yn hynod gamarweiniol, p'un a fyddwn wedi derbyn yr esboniad ai peidio, byddwn yn ysgrifennu at yr awdurdod priodol a phennaeth yr ysgol neu'r unigolyn arweiniol mewn lleoliad neu ddarparwyr i amlinellu ein pryderon. Ar ôl ymgynghori â'r darparwr ac ystyried unrhyw amgylchiadau penodol sy'n bodoli, efallai y byddwn yn cynnig arolygiad pellach i'r darparwr. Caiff arolygiad tebygol ei gynnal ar amser sy'n cael ei bennu gennym ni ar ôl ymgynghori â'r darparwr.

4 Ymateb i berfformiad nad yw'n bodloni'r gofynion

4.1 Mae'r broses sicrhau ansawdd wedi'i llunio i gefnogi'r arolygydd i wella eu perfformiad a sicrhau gwaith arolygu o ansawdd uchel. Byddwn yn gweithio i wella perfformiad unigol drwy:

- gyhoeddi arweiniad ychwanegol i gefnogi timau arolygu â'u gwaith
- hyfforddi pob arolygydd yn rheolaidd
- awgrymu meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol wrth arolygu

4.2 Ein nod yw nodi perfformiad nad yw'n bodloni'r gofynion ac ymateb iddo'n gyflym, yn glir ac yn deg. Rydym yn coladu ac yn adolygu ein gwybodaeth SA yn rheolaidd at y diben hwn. Bydd gwahanol lefelau o berfformiad anfoddhaol yn ennyn gwahanol gamau gweithredu gennym ni. Ar gyfer AEF, caiff unrhyw danberfformio ei nodi trwy ein gweithdrefnau rheoli perfformiad. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â thanberfformio gan arolygwyr allanol.

Y cyfnod monitro

4.3 Byddwn yn cofnodi graddau sicrhau ansawdd trwy gydol y cylch arolygu. Bydd yr holl raddau SA (SAAr a SAAAd) a graddau FfGA yn cael eu casglu mewn cronfa ddata at ddibenion dadansoddi. Yn ogystal, bydd cofnodion yn ymwneud â chwynion, terfynu contractau ac adborth yn cael eu casglu at ddibenion dadansoddi. Wrth ddod i benderfyniadau ynghylch gwaith arolygwyr yn gysylltiedig â dyfarnu contractau, byddwn yn ystyried ansawdd y tri arolygiad diwethaf a gynhaliwyd gan Arolygydd Cofnodol, Arolygydd Tîm neu Arolygydd

Lleyg, yn ôl sector.

4.4 At ei gilydd, bydd enghreifftiau o fethu bodloni ein gofynion neu'n cod ymddygiad yn parhau'n weithredol at ddibenion monitro am gyfnod treigl o 35 mis yn unig.

Cam 1: Anffurfiol

4.5 Os bydd pryderon cyffredinol yn codi am unrhyw arolygydd, bydd Cam 1 y weithdrefn yn cael ei roi ar waith gyda'r nod o sicrhau perfformiad gwell. Gall pryderon tebyg godi, mewn sector, am unrhyw arolygydd yn gysylltiedig â phryderon/mân ddiffygion cyson neu batrwm o raddau o ansawdd isel (dau werthusiad gradd C yn eu tri arolygiad diwethaf). Gallem ystyried yr holl wybodaeth sicrhau ansawdd berthnasol wrth werthuso perfformiad, gan gynnwys:

- gradd SAAR
- gradd SAAd
- gradd FfGA
- cwynion sydd wedi'u cadarnhau
- terfynu contractau
- adborth, gan gynnwys pryderon gan ddarparwyr ar ffurf HOAau, a fydd hefyd yn cyfrannu at wybodaeth am ansawdd gwaith arolygydd unigol.

4.6 Efallai na fydd yr enghreifftiau hyn yn ddifrifol, o'u hystyried ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, gyda'i gilydd, efallai y bydd angen gweithredu arnynt.

4.7 I ddechrau, bydd y broses yn cynnwys trafodaeth anffurfiol dros y ffôn gyda'r AYG cyn gynted â phosibl, fel arfer dan arweiniad Cyfarwyddwr Cynorthwyol, arolygydd arweiniol y sector neu swyddog arweiniol ar gyfer Polisi Arolygu neu Sicrhau Ansawdd.

4.8 Yn ystod y drafodaeth anffurfiol, byddwn:

- yn esbonio ein pryderon
- yn rhoi cyfle i'r AYG drafod eu canfyddiad o'u perfformiad eu hunain
- yn rhoi cyfle i'r AYG ddarparu unrhyw gyd-destun neu eglurhad perthnasol yn ymwneud â'r pryderon a nodwyd
- yn trafod a chytuno* ar y gwelliannau sydd eu hangen, y ffordd orau o'u cyflawni ac erbyn pryd (gan ddefnyddio'r daflen monitro cynllun gweithredu yn **'Pecyn cymorth Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau'**) a beth fyddwn yn ei wneud i helpu'r arolygydd i wella
- yn esbonio y bydd gwaith yr arolygydd yn cael ei fonitro'n fanwl yn ystod arolygiadau yn y dyfodol
- yn esbonio, os na fydd perfformiad yn gwella o fewn yr amserlen gytûn, y gallai

fod angen symud i Gam 2: Gweithdrefn ffurfiol.

**Os na allwn gytuno ar ffordd ymlaen, Estyn fydd yn penderfynu pa welliannau sydd eu hangen.*

4.9 Dyma enghreifftiau o gamau y gellir eu cynnwys yn y cynllun gweithredu uchod:

- AYG i ddarparu esboniad ysgrifenedig y tu ôl i'r diffygion a nodwyd
- AYG i ymgymryd â rhagor o hyfforddiant ar eu traul eu hunain ac o fewn pellter rhesymol o gartref yr AYG
- AYG i leihau gweithgarwch arolygu
- Estyn i gefnogi'r camau gofynnol i wella perfformiad trwy hyfforddiant neu gyngor, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

4.10 Ar ôl ymyrraeth gennym ni yng Ngham 1, os bydd gwaith yr AYG yn gwella (gradd A neu B yn cael ei dyfarnu yn y sector perthnasol) ac nad oes unrhyw ddigwyddiad sy'n deilwng o radd C neu D, yna ni chymerir unrhyw gamau pellach. Fodd bynnag, os na fyddant yn gwella neu os byddant yn cael tair gradd C neu un radd D yn eu pum arolygiad diwethaf yn y sector perthnasol (gan gynnwys yr arolygiadau hynny a ystyriwyd yng Ngham 1), bydd camau gweithredu Cam 2 yn berthnasol.

Cam 2: Ffurfiol

4.11 Os oes pryder sylweddol, er enghraifft diffyg cydymffurfio â Disgwyliadau Arolygwyr neu os bydd tuedd o gael graddau C (tair yn eu pum arolygiad diwethaf), un radd D neu fethiant difrifol, yna byddwn yn gweithredu ar unwaith ac yn rhoi Cam 2 y weithdrefn ar waith. Gall arolygydd sbarduno Cam 2:

- os bydd yn cael gradd D
- trwy sbarduno cam un yn barhaus dros gyfnod o 18 mis, neu
- trwy beidio â dangos unrhyw welliant mewn perfformiad ar ôl camau gweithredu Cam 1.

4.12 Gellir ystyried yr holl wybodaeth sicrhau ansawdd berthnasol wrth werthuso perfformiad ar y cam hwn.

4.13 Yn y lle cyntaf, byddwn yn ysgrifennu at yr AYG o leiaf ddeng diwrnod gwaith ymlaen llaw i'w gwahodd i gyfarfod, gan gynnwys y canlynol yn y llythyr:

- manylion am ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod
- esbonio diben y cyfarfod, sef trafod y pryderon a nodwyd, ystyried unrhyw gyd-destun perthnasol a ddarperir gan yr arolygydd a chytuno ar gymorth a chamau gweithredu priodol i sicrhau gwelliant
- gwybodaeth ddigonol am y tanberfformio a'i ganlyniadau posibl (gan gynnwys tynnu oddi ar ein cofrestr/rhestr ymrestredig) er mwyn galluogi'r AYG i baratoi i

drafod y mater mewn cyfarfod ffurfiol a chynnig esboniad. Byddwn yn rhoi unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig i'w AYG cyn y cyfarfod

- manylion am hawl yr AYG i gael rhywun yn gwmni iddynt yn y cyfarfod
- y weithdrefn i'w dilyn i fynd i'r afael â'r perfformiad anfoddhaol
- esbonio os na fydd perfformiad yn gwella o fewn yr amserlen gytûn, y gallai fod angen symud i Gam 3 y weithdrefn – rhoi amodau ar waith neu dynnu oddi ar y rhestr arolygwyr cofrestredig/ymrestredig

- 4.14 Diben y cyfarfod Cam 2 yw trafod y pryderon a nodwyd, rhoi cyfle i'r arolygydd gynnig unrhyw gyd-destun neu eglurhad perthnasol a chytuno ar gymorth a chmau gweithredu priodol i wella perfformiad yn y dyfodol. Nid yw'r cyfarfod wedi'i fwriadu i ailystyried y farn broffesiynol a gofnodwyd drwy'r broses sicrhau ansawdd.

Disgwylir i arolygwyr ymgysylltu'n llawn â Cham 2 y trefniadau hyn. Pan fydd arolygydd yn dewis peidio â mynychu cyfarfod Cam 2, neu fel arall yn gwrthod cytuno ar gynllun gweithredu neu ei roi ar waith, efallai na fydd Estyn yn gallu cefnogi na gwerthuso gwelliant. Dan yr amgylchiadau hyn, gall y Cyfarwyddwr Cynorthwyol benderfynu ei fod yn briodol symud ymlaen i Gam 3.

- 4.15 Os caiff pryderon eu codi nad yw'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd a nodir yn y polisi hwn wedi'u dilyn yn gywir, bydd y rhain yn cael eu hystyried ar wahân gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol nad yw wedi bod yn gysylltiedig â'r achos o'r blaen neu, lle bo'n briodol, gan Gyfarwyddwr Strategol ('uwch swyddog annibynnol'). Bydd yr ystyriaeth hon yn penderfynu a yw'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd wedi cael eu cymhwyso'n deg ac yn gyson. Ni fydd yn ailystyried nac yn disodli'r farn broffesiynol a gofnodwyd drwy'r broses sicrhau ansawdd, gan gynnwys y radd a ddyfarnwyd ar Ffurflen Gwerthuso Arolygydd, ffurflen Sicrhau Ansawdd Arolygiad neu ffurflen Sicrhau Ansawdd Adroddiad.

- 4.16 Pan fydd y swyddog adolygu yn fodlon bod y gweithdrefnau sicrhau ansawdd wedi cael eu dilyn yn briodol, bydd y broses Cam 2 yn parhau'n unol â'r polisi hwn. Pan fydd anghysondeb gweithdrefnol yn cael ei nodi, bydd y swyddog adolygu yn penderfynu ar y camau gweithredu mwyaf priodol, a all gynnwys ailadrodd y rhan berthnasol o'r broses sicrhau ansawdd.

- 4.17 Byddwn yn parhau i gynnig cyngor a chymorth a sicrhau bod yr AYG yn gweithredu ar yr hyn y cytunir arno. Dylai'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol gadw nodyn ffeil o gynnwys y drafodaeth a dylid marcio hwn 'Diogelu: Personol'. Bydd taflen monitro cynllun gweithredu yn cael ei llenwi.

- 4.18 Dyma enghreifftiau o gamau gweithredu y gellir eu cynnwys yn y cynllun gweithredu:

- AYG i ymgymryd â rhagor o hyfforddiant ar eu traul eu hunain
- AYG i leihau gweithgarwch arolygu, neu
- Estyn i gefnogi'r camau gofynnol i wella perfformiad.

- 4.19 Byddwn yn llunio barn ynghylch yr amodau y dylid eu cymhwyso dan yr amgylchiadau penodol.

Amodau a gymhwysir yn ystod Cam 2: Ffurfiol

- 4.20 Mae gennym yr hawl i derfynu contractau sy'n cael eu dyfarnu i'r AYG ar unwaith, heb unrhyw gost i'r sefydliad (Amodau Contract: Terfynu; pan fydd y contractwr yn destun ymchwiliad am unrhyw reswm) a/neu gyfyngu ar dendro yn y dyfodol, gan gynnwys atal o'r rhestr contractau 'yn ôl y gofyn'.
- 4.21 Bydd yr AYG yn cael eu gwahardd rhag cyflwyno tendr hyd nes bydd y cynllun gweithredu cytûn wedi'i gwblhau. Gall y cynllun gweithredu gynnwys rhaglen o hyfforddiant priodol, anogaeth, cysgodi arolygiad (ar draul yr AYG) ac o fewn pellter teithio rhesymol. Byddwn yn gwerthuso gwaith yr arolygydd cyn pen cyfnod sydd wedi'i gofnodi a'i gytuno yn eu cynllun gweithredu.

Cyfnod adolygu

- 4.22 Ar ôl cwblhau'r cynllun gweithredu cytûn yn llwyddiannus, bydd yr AYG yn dechrau cyfnod adolygu. Yn ystod yr cyfnod adolygu, bydd yr AYG yn gallu cyflwyno tendrau, ond bydd gennym yr hawl i gyfyngu ar nifer yr arolygiadau sy'n cael eu dyfarnu iddynt i lefel sylweddol is, ar sail eu patrwm blaenorol o arolygiadau. Bydd y cyfnod adolygu'n cynnwys y cylch tendro nesaf a hyd at dri arolygiad wedi'u cwblhau.
- 4.23 Yn ystod cyfnod adolygu Cam 2, os bydd gwaith yr AYG yn gwella (dwyradd A neu B yn cael eu dyfarnu yn y sector perthnasol) ac nad oes unrhyw ddigwyddiad sy'n deilwng o radd C neu D, yna ni chymerir unrhyw gamau pellach a daw'r cyfnod adolygu i ben. Fodd bynnag, os na fydd yr arolygydd yn gwella (o adeg ein hymyrraeth yng Ngham 2) neu os bydd yr arolygydd yn cael dwyradd C neu unradd D mewn tri arolygiad yn y sector perthnasol, yna bydd camau gweithredu Cam 3 yn berthnasol.

5 Tynnu oddi ar y rhestr arolygwyr cofrestredig/ymrestredig

Cam 3

- 5.1 Pan fydd Cam 3 wedi'i sbarduno yn unol â'r polisi hwn, bydd contract(au) arolygu'r AYG yn cael ei derfynu/eu terfynu a chânt eu gwahardd rhag cyflwyno tendr ar gyfer rhagor o arolygiadau. Yna, bydd panel Estyn yn ystyried statws ac/neu amodau ychwanegol a fydd yn cael eu gosod ar unrhyw arolygydd. Wrth benderfynu a ddylid argymhell i PAEF y dylid tynnu'r arolygydd oddi ar y gofrestr/rhestr ymrestredig neu y dylid gosod amodau ychwanegol, byddwn yn ystyried:

- graddau unrhyw ymddygiad annerbyniol

- i ba raddau y mae'r arolygiad yn hynod gamarweiniol neu y mae'r arolygiad yn hynod ddiffygiol
- materion yn ymwneud â thanberfformio'n barhaus
- esboniadau'r arolygydd
- arolygiadau ac adroddiadau blaenorol yr arolygydd
- ymgysylltiad yr arolygydd â'r broses sicrhau ansawdd
- unrhyw dystiolaeth berthnasol arall o ran sicrhau ansawdd.

5.2 Dylai'r panel hwn gynnwys tri o bobl nad ydynt wedi cyfrannu o gwbl at benderfyniadau yn y camau blaenorol. Mae'r rhai sy'n gymwys i fod ar y panel fel a ganlyn:

- Cyfarwyddwyr Strategol
- Cyfarwyddwyr Cynorthwyol
- Swyddog Arweiniol ar gyfer Polisi Arolygu
- Swyddog Arweiniol ar gyfer Sicrhau Ansawdd
- arolygwyr arweiniol sectorau
- arolygwyr sydd â phrofiad o'r sector penodol.

5.3 Bydd pob achos sy'n cynnwys tynnu arolygydd oddi ar y gofrestr/rhestr ymrestredig neu osod amodau ychwanegol yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun. Bydd pwysau cyfun pob un o'r ffactorau yn cael eu hystyried wrth wneud argymhelliad i dynnu oddi ar y rhestr neu fel arall. Bydd y panel yn argymhell i PAEF pa ddull gweithredu y dylid ei ddilyn o ran arolygydd unigol.

5.4 Yn unol ag adran 26 Deddf Addysg 2005, os oes camau i'w cymryd yn erbyn arolygydd, bydd PAEF yn ysgrifennu at yr arolygydd i ddweud eu bod yn bwriadu tynnu eu henwi oddi ar y gofrestr/rhestr ymrestredig neu osod amodau. Mae hawl i apelio, a rhaid gwneud hynny fel arfer cyn pen 28 diwrnod o gael hysbysiad o'r penderfyniad y mae anghydfod yn ei gylch. Bydd yr apêl i Dribiwnlys a sefydlwyd yn unol ag adran 27 ac Atodlen 3 Deddf Addysg 2005.

5.5 Bydd yr AYG yn parhau i fod wedi'u gwahardd o arolygiadau wrth aros am ganlyniad unrhyw apêl.

5.6 Mae copïau o'r Deddfau a'r Offerynnau Statudol sy'n sail i waith Estyn gydag AYGau a'r broses apelio berthnasol ar gael gan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus yn www.opsi.gov.uk. Y rhai mwyaf perthnasol yw:

- Deddf Addysg 2005 a Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
- Rheoliadau Addysg (Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a Thribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin) (Gweithdrefn) 1999 (Offeryn Statudol 1999 Rhif 265)
- Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006 (Offeryn Statudol 2006 Rhif 1714)

- Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 1999 (Offeryn Statudol 1999 Rhif 1441)
- Deddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992.

Mae'r siart llif ar y dudalen ganlynol yn crynhoi'r camau sydd wedi'u nodi yn y polisi hwn. Pan fydd unrhyw anghysondeb o ran dealltwriaeth rhwng y siart llif a'r polisi, y polisi sy'n cael blaenoriaeth.

Atodiad 2: Monitro ansawdd gwaith arolygwyr

Yn aros am ddelwedd

Atodiad 2: Tabl effaith hyfforddiant

	Effaith Hyfforddiant	SAAr/SAAAd
Cam 1	- Cynllun gweithredu - Efallai y bydd yn ofynnol i'r AYG fynychu hyfforddiant diweddarau ac/neu arolygiadau ar eu traul eu hunain	Yn bendant Posibl
Cam 2	- Cynllun gweithredu - Bydd angen cysgodi neu hyfforddiant mewn arolygiad o fewn pellter rhesymol o gyfeiriad cartref yr AYG ac ar eu traul eu hunain - Efallai y bydd angen rhagor o hyfforddiant/cymorth yn gysylltiedig â'r amodau sydd wedi'u gosod - Efallai y bydd angen mynychu digwyddiad hyfforddiant ar eu traul eu hunain	Yn bendant Yn bendant Posibl
Cam 3	Panel Estyn yn argymhell ffordd o weithredu	

Atodiad 3: Arolygwyr Cymheiriaid a Phartneriaid Gwella Ysgolion

At ddibenion yr arweiniad hwn, mae'r term Arolygydd Cymheiriaid yr un mor berthnasol i uwch arweinwyr yn eu rôl fel Arolygwyr Cymheiriaid a Phartneriaid Gwella Ysgolion sy'n ymuno â thimau arolygu.

Er bod llawer o'r arweiniad cyffredinol a nodir uchod hefyd yn ymwneud â gwaith Arolygwyr Cymheiriaid, mae statws cyflogaeth Arolygwyr Cymheiriaid a'u perthynas gytundebol gydag Estyn yn wahanol iawn i rai Arolygwyr Cofrestredig, Arolygwyr Ychwanegol ac Arolygwyr Lleyg.

Yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ag Arolygwyr Cymheiriaid, mae'n datgan na fyddwn yn defnyddio Arolygwyr Cymheiriaid ymhellach os na fyddant yn perfformio'n effeithiol, yn ôl barn yr arolygiaeth.

Yn yr un modd ag arolygwyr eraill, gall gwybodaeth am berfformiad Arolygwyr Cymheiriaid ddeillio o unrhyw weithgarwch sicrhau ansawdd y bydd Estyn yn ymgymryd ag ef. Mae hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth sicrhau ansawdd (SAAr a SAAd), holiaduron ôl-arolygiad (HOA) ac unrhyw adborth arall ac unrhyw gwynion a gadarnhawyd, er mai'r brif ffynhonnell wybodaeth am berfformiad Arolygwyr Cymheiriaid fydd FfGA, fel arfer.

Os daw pryderon i'r amlwg ynghylch ansawdd gwaith Arolygydd Cymheiriaid trwy ddyrannu gradd C gyffredinol ar FfGA, yna byddwn yn edrych ar bob achos yn unigol, ond mae'n debygol y byddwn yn cynnig cymorth i'r Arolygydd Cymheiriaid, er enghraifft trwy eu dyrannu i dîm mwy lle bydd eu baich unigol yn llai a gallant gael cymorth gan fwy o gydweithwyr ar y safle.

Fodd bynnag, pan fydd Arolygydd Cymheiriaid yn parhau i berfformio ar lefel isel (er enghraifft, dwy radd C yn olynol), yna mae'n debygol na fyddwn yn eu defnyddio mewn arolygiadau pellach.

Pan fydd Arolygydd Cymheiriaid yn cael gradd D am eu gwaith yn ystod arolygiad, byddwn yn ystyried ar unwaith peidio â'u defnyddio mewn unrhyw arolygiadau pellach, a byddwn yn ystyried eu tynnu oddi ar restr yr Arolygwyr Cymheiriaid.

Atodiad 4: Sicrhau ansawdd arolygiadau ar y cyd rhwng Estyn ac AGC

Caiff tua hanner yr arolygiadau meithrin nas cynhelir bob blwyddyn eu harwain gan Estyn, a thua hanner ohonynt gan AGC. Bydd gwybodaeth am ansawdd gwaith arolygydd cofrestredig meithrin unigol dan gontract yn cael ei chasglu mewn sawl ffordd, sef:

- sicrhau ansawdd arolygiadau (SAAr) yn uniongyrchol gan AEF trwy ymweld â'r lleoliad
- sicrhau ansawdd adroddiadau (SAAAd) gan AEF trwy'r broses olygu
- Ffurflenni Gwerthuso Arolygydd (FfGA) gan AEF trwy'r broses olygu
- data caffael ar ACofMau sy'n terfynu eu contractau
- adborth, gan gynnwys pryderon gan ddarparwyr ac ar ffurf holiaduron ôl-arolygiad (HOAau)
- cwynion sy'n cael eu cadarnhau.

Mae'r broses SAAr ar gyfer arolygiadau ar y cyd o leoliadau meithrin nas cynhelir yr un fath ag ydyw ar gyfer y sectorau eraill sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon.

Caiff ansawdd y gwaith ysgrifenedig a wneir yn ystod arolygiadau dan arweiniad AEF ei sicrhau mewn un o ddwy ffordd. Pan fydd arolygiad dan arweiniad Estyn, bydd yr AEF sy'n olygydd yn cwblhau SAAAd. Mae'r broses hon yr un fath ag ydyw ar gyfer y sectorau eraill sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon.

Pan fydd arolygiad yn cael ei arwain gan AGC a bod y dirprwy arweinydd yn ACofM, bydd yr AEF sy'n olygydd yn llenwi FfGA, gan roi un radd gyffredinol i'r ACofM. Nid oes angen FfGA pan fydd AEF yn ddirprwy arweinydd.

Mae'r broses ar gyfer mynd i'r afael â phryderon gan arolygwyr am y graddau a ddyfarnwyd, gan gynnwys pan fo'r radd yn deillio o ddefnyddio DA Cynhyrchiol mewn gwaith arolygu i Estyn, cwynion gan leoliadau a'r ffordd y mae Estyn yn ymateb i danberfformio yr un fath ag ydyw ar gyfer y darparwyr eraill sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon.